Cerrig Sarn

Gweithgaredd da i gael cynrychiolwyr cyngor yr ysgol i adnabod eu cryfderau a'u galluoedd.

Deunyddiau:

- Platiau papur
- Marcwyr

Sut:

Rhowch bentwr o blatiau i bob aelod o gyngor yr ysgol. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu'r galluoedd, y doniau neu'r cryfderau positif y maen nhw'n eu cyfrannu at gyngor yr ysgol ar y platiau.

Gallan nhw ysgrifennu ar gymaint o blatiau ag y mynnan nhw.

Gofynnwch i bawb sefyll yn un pen o'r ystafell. Mae'n rhaid i'r grŵp ddefnyddio'r platiau fel cerrig sarn i gyrraedd y pen arall, ond dim ond y platiau sy'n cynnwys pethau positif y maen nhw'n cael eu defnyddio.

Ni chaiff traed unrhyw un gyffwrdd â'r llawr ar unrhyw adeg ac os oes angen mwy o blatiau arnyn nhw yna mae'n rhaid i'r grŵp weithio i ddod i adnabod cryfderau'i gilydd a'u hysgrifennu ar blatiau.

Pwyntiau trafod:

- Ym marn y grŵp , a fyddai un person wedi gallu cyfrannu digon o blatiau I groesi'r afon ar ei ben ei hun?
- A wnaeth unrhyw un ei chael hi'n anodd i ysgrifennu pethau positif amdanyn nhw eu hunain?
- Pa gryfderau wnaeth pobl eraill eu hysgrifennu amdanoch chi nad oeddech chi wedi'u nodi'ch hun?
- Pa gryfderau sydd gan gyngor yr ysgol fel grŵp?